



## Canllawiau Ffilmio 2019

### Cynnwys

Cyflwyniad	1
Sut i wneud cais am ganiatâd	1
Canllawiau	2
Rhwymedigaethau gwneuthurwyr ffilmiau	3
Ffioedd a Thaliadau	5

## Cyflwyniad

Mae gan Rionda Cynon Taf bentrefi, mynyddoedd, adeiladau unigryw a threfi marchnad hanesyddol brydferth. Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn berchen ar dir ac eiddo sy'n adlewyrchu treftadaeth a thirweddau eithriadol yr ardal.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y dylanwad y mae ffilm a ffotograffiaeth yn gallu eu cael wrth gynnal ac adeiladu enw da'r Fwrdeistref Sirol ac mae'n rhaid cydbwysu ceisiadau ffilmio yn unol ag anghenion y gymuned heb gael effaith sylweddol ar adnoddau lleol.

Mae pob cais yn cael ei asesu yn ôl ei rinweddau unigol.

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu sut i wneud cais am ganiatâd i ffilmio ar dir neu ar leoliad y mae Cyngor RhCT yn berchen arno. At ddibenion y canllawiau hyn mae 'ffilmio' yn cynnwys unrhyw weithgaredd sy'n defnyddio camera gan gynnwys ffotograffiaeth lonydd, ond sy'n eithrio criwiau newyddion.

Dylai personél newyddion siarad â'r adran Gysylltiadau (01443 424007).

Nodwch y bydd y Cyngor ond â'r modd i roi caniatâd ar gyfer ar eiddo y mae'n berchen arno. Cyfrifoldeb gwneuthurwyr ffilmiau yw cysylltu â thirfeddianwyr preifat.

### Sut i wneud cais am ganiatâd

Ar gyfer cynrychiadau bach a mawr, dylech chi wneud cais am ganiatâd ar ein gwefan [www.rctcbc.gov.uk/ffilmio](http://www.rctcbc.gov.uk/ffilmio). Cyfeiriwch at y canllawiau ffilmio isod cyn cyflwyno'ch cais.

Os oes rhaid, mae yna bosibiliad bydd yn rhaid i ni ymgynghori â chi ymhellach er mwyn trafod manylion os yw'r cais i ffilmio'n gymhlethach na'r arfer.

Dylech chi gyflwyno cais i ffilmio gan fynd ar ein gwefan [www.rctcbc.gov.uk/ffilmio](http://www.rctcbc.gov.uk/ffilmio)

Cwblhewch y ffurflenni gan sicrhau bod y wybodaeth ganlynol wedi'i chynnwys:

- Amlinelliad byr o'r ffilmio/ffotograffiaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar fwriad gwreiddiol y ffilmio/ffotograffiaeth a phwrpas terfynol
- Manylion y lleoliad(au) lle bydd ffilmio/ffotograffiaeth yn digwydd.
- Y dyddiadau ar gyfer ffilmio
- Copi dilys o'ch polisi yswiriant, gan ddarparu tystiolaeth o Orchymyn Atebolrwydd Cyflogwr â lleiafswm o £5 miliwn ac yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gwerth £5 miliwn (os oes ei fod yn ofynnol yn unol â'r risg ac efallai y bydd angen gofyn i ymgeiswyr ddarparu yswiriant o lefel uwch).
- Os oes angen drôn, rhwch fanylion llawn gan gynnwys asesiad risg.
- Rhestr o'r criw ffilmio (nodwch enwau llawn)
- Manylion unrhyw gerbydau sy'n rhan o'r ffilmio, gan gynnwys eu manylion cofrestru.

Mae modd gofyn am wybodaeth ychwanegol ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgeisio ac ar ôl rhoi caniatâd.

Nod y Cyngor yw delio â cheisiadau cyn gynted â phosibl. Byddwn ni'n eich e-bostio i roi gwybod i chi ein bod wedi derbyn eich cais a'i fod yn cael ei brosesu. Fel arfer, byddwn yn ymateb i geisiadau syml o fewn tri diwrnod gwaith. Bydd angen ystyriaeth fwy manwl ar gyfer ffilmio mwy cymhleth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid cysylltu â phobl eraill, felly byddem yn annog ymgeiswyr i gwblhau eu ceisiadau cyn gynted â phosibl. Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud, byddwn yn cysylltu â chi.

Os bydd caniatâd yn cael ei roi i ffilmio byddwch yn derbyn e-bost yn amlinellu manylion y caniatâd a'ch rhwymedigaethau chi. Os bod y ffilmio'n digwydd ar raddfa fawr, efallai y byddwch yn derbyn cytundeb hefyd. Llofnodwch a dyddiwch y cytundeb a'i anfon dros e-bost at Garfan y Cyfryngau ar CysylltiadauCyhoeddus@rctcbc.gov.uk

Os oes unrhyw gwestiynau gyda chi, croeso i chi ffonio Carfan y Cyfryngau ar 01443 424007.

Nod y Cyngor yw rhoi caniatâd am geisiadau ffilmio addas sydd ddim yn tarfu neu'n atal defnydd cyhoeddus o ardal, yn creu gwrthdaro o ran y defnydd o dir/eiddo lleol neu'n debygol o beryglu'r cyhoedd.

Bydden ni'n gofyn i wneuthurwyr ffilmiau:

- Cydweithio â'r Cyngor, gan ddefnyddio'r broses ymgeisio sy'n cael ei nodi uchod
- Rhoi gwybod i Garfan Cyfryngau'r Cyngor ymhen digon amser er mwyn sicrhau y bydd modd i'r ffilmio digwydd. Fel canllaw rydym yn awgrymu o leiaf 7 diwrnod ar gyfer ceisiadau cyffredin (darn i gamera, heb lawer o offer a chriw) ac o leiaf 2 fis ar gyfer ceisiadau mwy cymhleth neu drafferthus. Os yw'r cais yn debygol o fod angen cynllunio mwy manwl, efallai y bydd y Cyngor yn gofyn am fwy o amser i baratoi, felly cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl.
- Mae gwneuthurwyr ffilmiau yn gyfrifol am ymddygiad eu staff a'u criw yn ystod cyfnod ffilmio.

Mae'n hysbys i wneuthurwyr ffilmiau a ffotograffwyr nad oes modd rhoi caniatâd i ffilmio ar dir nac eiddo nad yw'r Cyngor yn berchen arno. Rhaid cysylltu â thirfeddianwyr preifat yn uniongyrchol.

Mewn sefyllfaoedd lle mae modd i ffilmio effeithio ar briffordd gyhoeddus, rhaid cysylltu â Charfan Priffyrdd y Cyngor - RHAID i'r cais cychwynnol ddod drwy Garfan y Cyfryngau yn gyntaf er mwyn iddyn nhw roi'r cyngor cywir i'r Swyddog Priffyrdd priodol. Efallai y bydd yn briodol i ni hysbysu Heddlu De Cymru hefyd.

### **Canllawiau ar gyfer ffilmio ar eiddo'r cyngor**

Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio i roi cymorth i gwmnïau cynhyrchu. Nid ydyn nhw'n hynod gynhwysfawr. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn cydymffurfio â phob cyfraith sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau.

Mae'r Cyngor yn asesu pob cais i ffilmio yn ôl manylion y cais ac efallai bydd angen gofyn ar unrhyw adeg am ragor o wybodaeth gan y cwmni cynhyrchu i sicrhau bod y Cyngor, ei weithwyr a'r cyhoedd yn cael eu diogelu'n briodol.

At ddibenion y canllawiau hyn mae 'ffilmio' yn cynnwys unrhyw weithgaredd sy'n defnyddio camera gan gynnwys ffotograffiaeth lonydd, ond sy'n eithrio criwiau newyddion.

### **Mynediad i setiau ffilm**

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gael mynediad at set ffilm ar unrhyw adeg.

### **Rhwymedigaethau gwneuthurwr ffilmiau**

#### **Anifeiliaid**

Rhowch wybod i Garfan y Cyfryngau os ydych chi'n bwriadu ffilmio gydag anifeiliaid. Bydd angen i ni wybod y math o anifail / anifeiliaid y byddwch yn eu defnyddio, y nifer, sut y cânt eu cludo a'u cadw a'ch paratodau amdany'n nhw mewn argyfwng. Yn dibynnu ar natur eich cais, efallai y bydd angen i ni ofyn am ragor o fanylion cyn gwneud penderfyniad am eich cais i ffilmio.

Canllawiau'r RSPCA ar gyfer defnyddio anifeiliaid yn y diwydiant gweledol a chlywedol Mae manylion ar wefan [www.rspca.org.uk/performinganimals](http://www.rspca.org.uk/performinganimals) am yr amodau y dylid eu defnyddio i gadw anifeiliaid. Rhaid i wneuthurwyr ffilmiau sicrhau bod ganddyn nhw drwydded perfformiad anifeiliaid a'u bod yn cydymffurfio â phob cyfraith sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau penodol.

#### **Ceblau a thraciau**

Mae angen gosod conau mewn manau cyhoeddus lle mae trac camerau yn cael ei osod bob amser. Os bod camera craen yn cael ei ddefnyddio mewn man cyhoeddus, dylid cau'r ardal gyfagos i sicrhau bod lle i'r craen symud ac er mwyn gosod y gwrth-bwys ar gefn y craen.

Os oes rhaid gosod trac camera ar briffordd, rhaid i'r cwmni cynhyrchu gysylltu â Charfan Priffyrdd y Cyngor.

#### **Arlwyo**

Dywedwch wrthym ni yn eich ffurflen gais os ydych chi'n bwriadu dod ag arlwywyr gyda chi ar y set neu os ydych yn bwriadu cysylltu â'r prif gyflenwad dŵr.

#### **Gosod conau, rheoli traffig a chau ffyrdd**

Os oes angen mesurau rheoli traffig, cysylltwch â Charfan Priffyrdd y Cyngor. Os ydych chi angen defnydd o'n meysydd parcio, nodwch hyn ar eich cais a bydd hyn yn cael ei ystyried. Sylwer y gall y rhain wynebu costau ychwanegol.

#### **Iechyd a diogelwch**

Cyfrifoldeb y cwmni cynhyrchu ffilmiau / ffilm yw iechyd a diogelwch y cwmni cynhyrchu ffilm, eu gweithwyr a'r cyhoedd sy'n cael eu heffeithio yn ystod y cyfnod ffilmio/saethu. Rhaid i'r cwmni cynhyrchu ffotograffiaeth / ffilm sicrhau ei fod yn rhoi ystyriaeth briodol i iechyd a diogelwch.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ofyn am gopïau o ddogfennau iechyd a diogelwch perthnasol, tystysgrifau arolygu ac asesiadau risg. Pan fydd y cais yn gofyn am lawer o offer technegol bydd y Cyngor yn gofyn am gyfnod o 1 mis o rybudd o leiaf. Efallai y bydd costau ychwanegol yn berthnasol.

Efallai y bydd gofyn i gwmnïau cynhyrchu sy'n cyflwyno ceisiadau sy'n cynnwys llawer iawn o offer technegol neu griw mawr, a allai fod o berygl i'r cyhoedd, enwebu swyddog diogelwch. Rhaid rhannu gwybodaeth gyswllt y person yma gyda'r Cyngor.

Rhaid i'r holl offer trydanol gael profion offer symudol

### **Yswiriant**

Cyn cymeradwyo unrhyw gais i ffilmio bydd angen i'r Cyngor weld copi o yswiriant dilys - rydyn ni'n gofyn am leiafswm o £5 miliwn o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a £5 miliwn o yswiriant atebolrwydd cyflogwr ar gyfer y rhan fwyaf o gyfnodau ffilmio. Efallai y bydd angen sylw mwy helaeth ar gyfer cyfnodau ffilmio arfaethedig mwy cymhleth.

Bydd cynyrchiadau myfyrwyr a ffilmio anfasnachol yn cael eu cynorthwyo cyn belled ag y bo modd. Rhaid i fyfyrwyr ddarparu copi o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yr ysgol / coleg / prifysgol a chopi o asesiad risg y prosiect.

Bydd y gwneuthurwr ffilmiau yn gyfrifol am gost trwsio unrhyw ddifrod, sy'n cael ei achosi o ganlyniad uniongyrchol i'r ffilmio (naill ai gan y gwneuthurwr ffilmiau, eu staff neu drwy weithgaredd y mae'r gwneuthurwr ffilmiau wedi'i ysgogi) i ddodrefn stryd, priffyrdd cyhoeddus a thu mewn a thu allan i adeiladau lle mae ffilmio wedi'i chaniatau. Bydd disgwyl i chi ddefnyddio contractwyr cymeradwy i gwblhau'r gwaith mewn cytundeb â'r Cyngor ac ymhen amserlen resymol sy'n cael ei chytuno gan y Cyngor.

### **Trefnwyr, stiwardiaid a staff diogelwch**

Os yw'r hyn rydych chi'n ei ffilmio yn cynnwys golygfeydd o dyrfaoedd neu os yw'n debygol o ddenu llawer o ddiddordeb cyhoeddus efallai y bydd rhaid i chi sicrhau bod yna ddarpariaeth o farsialiaid, stiwardiaid neu swyddogion diogelwch yn bresennol. Nodwch y manylion hyn yn eich ffurflen gais ffilmio. Efallai y bydd gofyn i chi ddarparu cynllun stiwardio i'r Cyngor. Bydd angen i chi sicrhau bod staff yn gwisgo dillad diogelwch priodol (siacedi gweledd uchel ac ati).

### **Ffilmio yn y nos**

Efallai y bydd cyfyngiadau ar gyfer ffilmio gyda'r nos. Rhowch fanylion unrhyw ofynion ffilmio yn y nos yn eich cais fel y bydd modd asesu'r rhain er mwyn i chi fod yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau sy'n berthnasol.

### **Sŵn a goleuo**

#### **Sŵn**

Fel rhan o'ch rheolaeth iechyd a diogelwch bydd angen i chi sicrhau bod lefelau sŵn yn cydymffurfio ag is-ddeddfau lleol. Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol i leihau lefelau sŵn os bydd unrhyw Gyngor neu swyddog heddlu yn gofyn am hynny yn ystod cyfnod y ffilmio. Bydd rhaid cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Sŵn yn y Gwaith 1989 a Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith 2005.

Os ydych yn bwriadu defnyddio trac sain, megaffonau neu eneraduron, rhaid i chi ein hysbysu ni pan fyddwch yn gwneud eich cais er mwyn i ni roi'r mesurau priodol ar waith i leihau aflonyddwch a diogelu'r cyhoedd.

### **Goleuo**

Rhowch wybod i ni os ydych chi'n bwriadu defnyddio goleuadau. Rhaid cytuno ar leoliad y goleuadau ac amserau byddan nhw'n cael eu defnyddio fel nad ydynt yn cael effaith andwyol ar drigolion na defnydd y priffyrdd.

### **Parcio**

Bydd angen nodi pob cais parcio wrth wneud cais.

### **Setiau**

Os ydych am osod set neu strwythurau dros dro o unrhyw fath, gwnewch hyn yn glir ar eich ffurflen gais.

### **Staff a'u defnydd o'r safle**

Byddwch chi'n gyfrifol am iechyd a diogelwch ac ymddygiad eich staff yn ystod y cyfnod ffilmio. Ni chaniateir sbwriel, alcohol na sylweddau anghyfreithlon ar y safle. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth cyflogaeth gyfredol.

### **Asesu Risg**

Mae modd i'r Cyngor ofyn am gael gweld copi o'r asesiad risg ar gyfer ffilmio ac mewn rhai achosion bydd yn briodol i'r cwmni benodi swyddog diogelwch. Bydd yn rhaid hysbysu'r Cyngor o enw'r person yma.

### **Defnyddio cerbydau wrth ffilmio**

Rhaid i lwythwyr isel, cerbydau tracio neu unrhyw gerbydau eraill sydd ag unrhyw rannau sydd ynghlwm wrthynt fod yn gwbl addas i'r ffordd, eu trwyddedu a'u hyswirio. Rhaid i bob cerbyd ddilyn yr holl reoliadau ffyrdd bob amser a sicrhau dydyn nhw ddim yn achosi unrhyw rwystr neu berygl i unrhyw gerbyd neu gerddwr arall. Os yw'ch gofynion chi yn fwy na'r rhain, sicrhewch eich bod chi'n siarad â Charfan y Cyfryngau ymhen digon o amser (o leiaf fis ymlaen llaw) fel bo modd cynnal trafodaethau gydag adran y Priffyrdd a chynrychiolwyr yr heddlu.

### **Gwastraff a sbwriel**

Rhaid i'r cwmni cynhyrchu waredu'r holl wastraff a'r sbwriel sy'n cael ei gynhyrchu fel rhan o gyfnod ffilmio a gwneud hyn yn gywir bob tro.

### **Arfau a golygfeydd o natur dreisgar neu dramgwyddus**

Bydd angen trafod troseddau, damweiniau neu sefyllfaoedd brys gyda Heddlu De Cymru a gwasanaethau brys eraill.

Does dim caniatad cael cyllyll, arfau tanio neu arfau o unrhyw fath, gan gynnwys atgynhyrchiadau, heb gytundeb o flaen llaw. Rhaid i arfogwr trwyddedig fod yn bresennol pan fydd ffilmio yn cynnwys cyllyll, arfau tanio neu arfau eraill. Mae'r arfogwr yn gyfrifol am reoleiddio, dosbarthu,

casglu a chludo arfau. Rhaid cadw pob arf allan o olwg y cyhoedd pan na fyddan nhw'n cael eu ffilmio.

Yn ogystal â'r canllawiau, bydd disgwyl i bob gwneuthurwr ffilm gadw at unrhyw reolau safle neu is-ddeddfau sy'n ymwneud â lleoliad penodol.

### **Ffioedd a Chostau**

Bydd y rhain yn cael eu hystyried fesul achos.

**Dydy taliadau ddim yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n creu ffilmiau fel rhan o'u hastudiaethau academaidd, elusennau cofrestredig neu adroddiadau newyddion.**